PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 30/31 Gorffennaf 28/Awst 4, 2022 50c.

A oes heddwch?

Mae'n gyfnod cyffrous i bawb ohonom wrth i ddigwyddiadau ailgydio yn dilyn y pla. Testun llawenydd i bawb ohonom yw bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn Nhregaron, o'r diwedd, yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Awst. Dymunwn yn dda i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r trefniadau ac i bawb fydd yn cymryd rhan yn ystod yr ŵyl. Mwynhewch y dathliad arbennig hwn o'n Cymreictod. Pob llwyddiant i weithgareddau pabell Cytûn, sydd yn dystiolaeth Gristnogol bwysig yn y brifwyl. Y mae'r babell hon ar y maes yn arwydd bychan o'n hundod yng Nghrist a'n bod yn parhau fel eglwysi i dystio i'n Gwaredwr Iesu gan hyrwyddo gwaith ei deyrnas yng Nghymru a'r byd.

Ni all neb fynd i Dregaron heb sylwi ar y cerflun trawiadol – gan Henry Taft – sydd ar y sgwâr er cof am Henry Richard (1812–88), yr Apostol Heddwch. Trwy gydol ei oes fe weithiodd Henry Richard yn ddiflino dros hyrwyddo heddwch rhyngwladol.

Ganwyd ef yn Prospect House, Tregaron. Roedd ei dad yn ŵr diwylliedig iawn ac yn fab i athro cylchynol yn ysgolion Gruffudd Jones. Cafodd Henry Richard yr addysg orau a gaed yng Ngheredigion ar y pryd, yn ysgol ramadeg Llangeitho ac yna yn ysgol mathemateg a masnach John Evans yn Aberystwyth. Wedi cyfnod fel dilledydd rhoddodd ei fryd ar y weinidogaeth ac aeth i Goleg Annibynnol Highbury yn Llundain. Yno, heuwyd hadau ei ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth, hadau a eginodd ac a flodeuodd yn ddiweddarach yn ei oes. Yn 1835 ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwys yr Annibynwyr Saesneg, Marlborough Street yn yr Old Kent Road, Llundain, a bu yno hyd ei ymddeoliad ym 1850.

Cymdeithas Heddwch Llundain

Penodwyd ef ym 1848 yn ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch ac fe ysgrifennodd:

> Y mae'r Gymdeithas Heddwch yn croesawu unrhyw un sy'n caru Heddwch i ymaelodi, p'un ai ydynt yn derbyn y gred haniaethol ynglŷn â dyletswydd Gristnogol ar y pwnc ai peidio. Crëwyd y Gymdeithas i ysgogi barn gyhoeddus yn erbyn y Gyfundrefn Ryfel ac i annog mabwysiadu dulliau Cristnogol a theg i ddatrys anghytundebau rhyngwladol.

Roedd ef hefyd yn gyfrifol am barhad a datblygiad cyfres o gymanfaoedd heddwch pwysig a gynhaliwyd ym Mrwsel (1848), Paris (1849), Frankfurt (1850) a Llundain adeg yr Arddangosfa Fawr ym 1851. Etholwyd ef yn aelod seneddol Rhyddfrydol dros Ferthyr Tudful ym 1868. Safodd yn gadarn dros fuddiannau Cymreig ac Anghydffurfiol yn ystod ei dymor yn y Senedd ac yno hefyd, yng Ngorffennaf 1873, llwyddodd i gario mesur o blaid cyflafareddiad (y weithred o gyd-drafod, *arbitration*) rhwng y gwledydd. Dywedodd mewn cynhadledd yng Nghwlen a Milan (Awst 1881):

> Ni ellir dychmygu am well prawf o anallu llwyr rhyfel i ddatrys cwestiynau o degwch na'r hyn a geir yn y ffaith nad yw yn datrys dim. Oblegid ar ôl i'r gwledydd frwydro am bump neu ddeng neu bymtheng mlynedd maent bob amser yn terfynu drwy gyfarfod mewn cyngor i ymgynghori a dadlau, ac i lunio, drwy gydsyniad a chyfaddawd, Gytundeb Heddwch. Y cyfan a ofynnwn yw, oni fyddai'n ddoethach pe baent yn dechrau lle maent yn gorfod diweddu, gan gyfarfod mewn Cyngor, a chydsynio a chyfaddawdu, cyn eu bod yn llanw'r byd â difrod ac arswyd rhyfel?

Hyrwyddo heddwch

Nid oedd neges Henry Richard am heddwch yn eithriadol o boblogaidd yn ystod ei oes gan fod cymaint o ymladd a rhyfeloedd rhwng cenhedloedd a'i gilydd ac wrth gwrs pobl yn ymelwa trwy drais a lladd. Er hynny gweithiodd yn galed i geisio argyhoeddi arweinyddion ar hyd a lled y byd o ffolineb ac oferedd rhyfel.

A dyma ni ar gychwyn wythnos yr eisteddfod yn Nhregaron, yn cael ein hatgoffa o genadwri oesol Henry Richard, pan mae rhyfel a gwrthdaro erchyll yn digwydd yn Wcráin. Y mae'r angen am heddwch yn parhau yn ein byd ac mae galwad yr Efengyl Gristnogol yn ein cymell ni heddiw i weddïo dros heddwch a chyfiawnder ac yn erbyn rhyfelgarwch a thrais. O na wnawn ni hynny gweithred wag yw bloedd flynyddol yr Archdderwydd, 'A oes heddwch?' Yr unig ffordd y daw hynny mewn gwirionedd yw trwy Iesu Grist a gwaith ei Deyrnas.

Cofeb Henry Richard ym mynwent Abney Park, Llundain

Y Gorlan

Cychwynnwyd y Gorlan Goffi Gristnogol gan griw o fyfyrwyr ar faes pebyll Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan a'r fro ym 1984. Y bwriad o'r dechrau oedd gweini ar y gwersyllwyr gan ddarparu bwyd a diod cynnes ar eu cyfer, to uwch eu pennau pe byddai angen a hafan ddiogel ynghanol miri'r maes. A phan ddeuai cyfle byddent yn rhannu eu ffydd yn Iesu gydag eraill. Gwnaed hynny am flynyddoedd hyd nes y bu rhaid iddynt adael Maes B a hynny am nifer o resymau. Ond wyddoch chi mae'r Gorlan yn parhau i fodoli fel tystiolaeth Gristnogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol er bod natur y dystiolaeth honno wedi newid.

Eisteddfod Genedlaethol Tregaron

Eleni, bydd tîm y Gorlan yn cynnal ymgyrch genhadol ar faes yr Eisteddfod. Yn ystod yr wythnos, byddant yn cydweithio â phabell 'Bywyd' (a noddir gan Fudiad Efengylaidd Cymru) er mwyn rhannu'r Efengyl ar brif faes yr Eisteddfod. Thema eu hymgyrch fydd 'Bywyd: Beth yw dy stori di?'. Wrth sgwrsio â phobl ynglŷn â stori eu bywydau nhw, gobeithiant gael cyfle i'w cyflwyno i'r Arglwydd Iesu, yr un sydd wedi dod i roi bywyd a hwnnw'n fywyd yn ei holl gyflawnder (Ioan 10:10). Yn ogystal â hyn, bydd gan y Gorlan hefyd bresenoldeb ym Mhabell yr Eglwysi yn ystod yr wythnos.

Gweddïo dros y Gorlan

Fel y dywedodd Solomon yn Salm 127:1, 'Os nad yw'r ARGLWYDD yn adeiladu'r tŷ, y mae ei adeiladwyr yn gweithio'n ofer.' Yn yr un modd, os nad ydym yn dibynnu'n llwyr ar yr Arglwydd, mae holl waith y Gorlan yn ofer. Dyma pam y maent yn gofyn inni eu cefnogi trwy weddi. Dyma rai pwyntiau gweddi y maent yn eu hawgrymu:

Diolchwch i'r Arglwydd am y cyfle sydd gennym i rannu'r Efengyl ar faes yr Eisteddfod. Gweddïwch y bydd Duw, trwy'r Ysbryd Glân, yn agor calonnau nifer i gydnabod mai Iesu yw'r Arglwydd. Gofynnwch i'r Arglwydd ein helpu i recriwtio tîm o wirfoddolwyr ar gyfer ein hymgyrch efengylu yn Eisteddfod Tregaron.

Diolchwch i'r Arglwydd am y ffordd mae wedi darparu'r arian yr ydym ei angen ar gyfer ymgyrchoedd y gorffennol. Gweddïwch y bydd yn darparu'r arian yr ydym ei angen i gynnal ein hymgyrch efengylu yn Nhregaron.

Cyfrannu at y Gorlan

Elusen yw'r Gorlan sy'n dibynnu'n llwyr ar gyfraniadau ariannol ei chefnogwyr hael. Pob blwyddyn, maent yn codi arian er budd eu hymgyrch. Mae costau'r wythnos yn cynnwys pethau fel prynu tocynnau maes i'r gwirfoddolwyr, bwcio safle pebyll ar gyfer tîm y Gorlan a phrynu adnoddau i'n helpu i rannu'r Efengyl. Os hoffech gefnogi'n ariannol, gallwch wneud hynny trwy anfon siec i 'Y Gorlan' at y cyfeiriad canlynol:

Trysorydd y Gorlan
Y Betws
13 Rhes Osmond
PENRHYNDEUDRAETH
Gwynedd
LL48 6PA

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

CYDLYNYDD HYRWYDDO GWEINIDOGAETHAU

Cyfle cyffrous i ymateb i heriau mae eglwysi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn eu hwynebu yn y cyfnod ôl-Covid.

• Oes gennych chi'r brwdfrydedd a'r ymroddiad i feithrin, cefnogi a datblygu gweinidogaethau?

• Oes gennych chi'r weledigaeth i ymateb i anghenion yr eglwysi mewn modd rhagweithiol ac arloesol?

• Ydych chi'n barod i fentro mewn cyfnod o newid?

Os felly, rydym yn awyddus i glywed gennych.

Derbynnir ceisiadau gan unigolion sy'n dymuno rhannu swydd.

I gael pecyn gwybodaeth ymgeiswyr neu sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â'r
Ysgrifennydd Gweinyddol,
Tŷ John Penri,
5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon,
Bro Abertawe, ABERTAWE. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888
E-bost: ann@annibynwyr.cymru

Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol: Caerfyrddin 2022

Dyma ail ran Adroddiad y Parch. Dyfrig Rees a draddodwyd ganddo yng nghyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni.

Cyd-ddathlu

Nid ni'n unig sy'n dathlu, eleni. Y mae'r Gynghrair Gynulleidfaol a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig hwythau'n dathlu hanner canrif eu sefydlu, yn 1972. Cefais y fraint o fod yn bresennol yng nghymanfa'r naill ynghynt yn yr haf fel y caf, gobeithio, fod mewn dathliad gan y llall yn yr hydref.

Staff

Carwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'm cydweithwyr yn Nhŷ John Penri am eu gwaith dros y flwyddyn ac am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad parod, â hynny mewn cyfnod anodd a heriol oedd yn gofyn am gryn dipyn o addasu a hyblygrwydd ar eu rhan. Rwy'n mawr hyderu inni lwyddo i gyflawni'r hyn oedd yn ddisgwyliedig gennym.

Ymddeolodd y Swyddog Cynnal ac Adnoddau, Robin Wyn Samuel wedi treulio saith mlynedd yn y swydd. Mae'n diolch yn fawr iawn iddo am ei waith. Gwerthfawrogwyd yr adnoddau a baratowyd ganddo. Rydym yn dymuno'r gorau i Robin ar ei ymddeoliad ac i Janet ac yntau flynyddoedd lawer o iechyd a mwyniant.

Ddechrau Ebrill, symudodd yr Ysgrifennydd Gweinyddol Ann Williams i weithio'n rhan amser, dri diwrnod yr wythnos.

Ar hyn o bryd, y mae'r staff yn TJP ar ddyddiau Mawrth ac Iau ac unrhyw ddiwrnodau eraill yn ôl y gofyn ac mae'r drefn weithio hybrid bresennol yn ymddangos yn un ddelfrydol. Y mae'r ffaith hon yn dwyn dimensiwn newydd un na freuddwydiwyd amdani cyn Covid, i'r drafodaeth a agorwyd yn Undeb Rhyd-y-main 2019, ynghylch ystyried y posibilrwydd o gael canolfan i'r Annibynwyr yng ngogledd Cymru. Bellach, yn dilyn ein profiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac yn sgil datblygiadau sylweddol yn y cyfryngau cyfathrebu newydd, amgen, a'n meistrolaeth gynyddol ohonynt, mae cadw mewn cyswllt â'n pobl a bod wrth law iddynt yn beth dipyn mwy cyfleus nag y bu.

Yr ydym yn mawr hyderu y gwelwn ni cyn bo hir rywun yn dod i lenwi swydd newydd a chyffrous, Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau, ac mae'n ymddangos bod angen pâr arall o ddwylo i weinyddu a hyrwyddo'r rhaglenni Arloesi a Buddsoddi, ynghyd â'r rhaglenni a gyflwynwyd i'ch sylw ddoe.

Gwefan newydd

Byddwch chi borwyr y we wedi sylwi ers tro bod gwefan newydd gennym, neu wefan ar ei newydd wedd, beth bynnag. Mae Rhodri, gyda chymorth parod Elinor, ac mewn cydweithrediad â chwmni Web-box, wedi gweithio'n ddyfal ar hon ac mae'n siŵr ein bod ni sy'n pori arni'n gwerthfawrogi'r ddarpariaeth yn fawr. Byddwch yn cytuno, mae'n siŵr, bod cael dwy eglwys y mis i adrodd rhywfaint o'u hanes a'u stori wedi bod yn ddatblygiad i'w groesawu. Gwaith, diddiwedd yw cynnal gwefan fyw, effro.

Felly, hefyd, y cyfryngau cymdeithasol eraill sydd at ein defnydd ynghyd â'r *Tyst*, wrth gwrs. Y mae'r ffaith fod *Y Tyst* wedi ymddangos yn gyson, ddi-dor dros y ddwy flynedd ddiwetha, a hynny mewn cyfnod hesb o ran newyddion o'r eglwysi, yn destun rhyfeddod. Y mae'r prif olygydd Alun Tudur, a'i gyd-olygyddion Alun Lenny ac Iwan Llewelyn Jones, i'w hedmygu a'u canmol. Wrth gwrs, y ffordd orau y gallwn ni ddangos ein gwerthfawrogiad o lafur y gweithlu sy'n cydlynu a hyrwyddo'r gwaith yw trwy ddanfon deunydd atynt i'w rannu a'i gyhoeddi.

Mae eraill wedi tynnu sylw at ffrwyth llafur y blynyddoedd diwethaf. Braint yw cael diolch i Dr Fiona Gannon, Cadeirydd y Gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd, fu mor ddiwyd yn trosi ac addasu cyfrol a baratowyd yn wreiddiol gan y Congregational Federation, *Abundant Life: Bywyd i Bawb*.

Bydd y drydedd ran yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.

Cannwyll

Pan aeth gofalaeth Bröydd Myrddin ar bererindod i Ogof Cwmhwplin ym mis Mehefin fe gyflwynodd Maria Evans y detholiad isod o benillion y Ficer Prichard o *Ganwyll y Cymry*.

Heb y Gair ni ddichon undyn
'Nabod 'wyllys Duw, na'i ganlyn;
Na gwir ddysgu'r ffordd i addoli
Nes i'r Gair roi iddo oleuni.

Y Gair yw'r gannwyll a'th oleua,
Y Gair yw'r gennad a'th gyf'rwydda;
Y Gair a'th arwain i Baradwys,
Y Gair a'th ddwg i'r nef yn gymwys.

Seren wen yn arwain dyn
O fan i fan at Grist ei hun
Yw'r Efengyl, i gyf'rwyddo
Pawb i'r nefoedd a'i dilyno.

Bwyd i'r enaid, bara'r bywyd,
Gras i'r corff a maeth i'r ysbryd;
Lamp i'r droed a ffrwyn i'r genau
Yw Gair Duw a'r holl 'Sgrythurau.

Gwerth dy dir a gwerth dy ddodrefn,
Gwerth dy grys oddi ar dy gefen;
Gwerth y cwbwl oll sydd gennyt
Cyn y b'och heb Air y bywyd.

'Her yr Eglwys ôl-Covid'

Mae copïau o anerchiad llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2022 gan y Parchg Beti-Wyn James ar gael o Dŷ John Penri.

Cysylltwch naill ai dros e-bost: undeb@annibynwyr.cymru neu ffôn: (01792) 795888

Pris: £5 + cost postio.

Doethuriaeth

Yn sgil ei radd Doethuriaeth er anrhydedd gan Brifysgol Bangor fe ysgrifennodd Eirian Dafydd, Caerdydd, englyn i Arfon Jones er mwyn nodi'r achlysur arbennig. Dyma fo.

I Dr Arfon beibl.net
04.07.22

Ag afiaith bu'n cyfieithu i roi'r Gair
ar goedd i'w gyd-Gymry,
a'r llên yn iaith lafar llu
yn nod er mwyn cenhadu.

Yr Adran
Gydenwadol
GORFFENNAF 28 2022 RHIF 74-75

Croeso'r eglwysi ar Faes yr Eisteddfod

Tybed a fyddwch chi'n mynd i gyfeiriad yr Eisteddfod yn Nhregaron eleni? Ac os byddwch chi, ai cerdded y Maes yn sgwrsio efo hwn a'r llall fyddwch chi, neu eistedd o fore tan nos mewn pafiliwn neu yn y babell lên yn mwynhau'r wledd? Erbyn hyn mae rhaglen lawn ac arlwy gwych wedi eu rhannu gan drefnwyr yr Eisteddfod, â llu o bethau ymlaen tan 10 o'r gloch bob nos. Ynghanol hyn i gyd bydd presenoldeb a thystiolaeth yr eglwysi lleol ar y Maes. Beth bynnag eich cynlluniau ar gyfer yr wythnos, cofiwch alw i mewn yn y babell os cewch gyfle – bydd croeso cynnes yn eich aros. Chwiliwch am faneri lliwgar stondin Cytûn: Pabell yr Eglwysi

Pabell lawn croeso a digwyddiadau

Bu 'Pabell yr Eglwysi' o dan nawdd Cytûn yn bresenoldeb Cristnogol blynyddol yn yr Eisteddfod ers dros 20 mlynedd, a braf yw gweld y cydweithio rhwng cynifer o enwadau a mudiadau Cristnogol. Eisoes bu eglwysi Ceredigion yn pwyllgora ac yn paratoi, er mwyn sicrhau bod yno groeso i ymwelwyr. Bydd criw o ffyddloniaid yno'n paratoi paneidiau ac yn arwain defosiwn yn ddyddiol. Mae ein diolch yn arbennig eleni i'r Parch. Carwyn Arthur a'i wraig, Alicia, o Dregaron am gytuno i fod yn rheolwyr y babell, gan ofalu am y criw a fydd yn gweithio yno. Rydym wedi bod yn ffodus i sicrhau gwasanaeth dros 100 o wirfoddolwyr o bob rhan o Geredigion – selogion yr eglwysi, a fydd yno i weini a chroesawu drwy gydol yr wythnos.

Wedi dwy flynedd o fethu cyfarfod ein gilydd, dewiswyd 'Ailgysylltu a Chysylltu' fel thema ar gyfer y babell. Bydd yn gyfle i ni ailgysylltu â'n gilydd unwaith eto fel ffrindiau a chyd-aelodau o eglwys Iesu Grist. Bydd yn gyfle i adnewyddu cyfeillgarwch, ac i ddal i fyny efo tair blynedd o newyddion! Bydd hefyd yn gyfle i gysylltu â'r gymuned ehangach, ac yn gyfle cenhadol i gyhoeddi bod efengyl Iesu Grist yn dal yr un mor berthnasol a real ag y bu erioed.

Ynghanol Maes prysur a swnllyd, mae'n braf cael gofod croesawgar i droi i mewn iddo. Rhwng 9 a 6 o'r gloch bob dydd bydd cyfle am baned o goffi neu de, a theisen gri; mae yna 5,000 wedi eu harchebu gan bobydd lleol ar ein cyfer. Mae'r rhain yn cael eu cynnig am ddim, ond gwerthfawrogir rhoddion tuag at waith elusennol cenhadol.

O fewn y babell bydd cornel arbennig ar gyfer y plant o dan ofal Plant Dewi, gyda diod a bisged, a gweithgareddau yn cynnwys crefftau, gemau, Lego a Jenga, gwneud breichledau a bathodynnau a chyfle i gael stori o'r Beibl.

I oedolion sydd am seibiant o grwydro'r Maes, bydd cornel ddarllen, gyda chopïau cyfredol o gylchgronau Cristnogol (gan gynnwys *Cenn@d*) i chi fodio trwyddynt. Bydd cornel weddi a myfyrdod gennym hefyd, gyda dewis o ddeunydd defosiynol fel *Gair y Dydd*, a chyfle i offrymu gweddi greadigol ar y wal weddi. Bydd stondin lyfrau Cyhoeddiadau'r Gair yno yn ôl eu harfer, a chyfle hefyd i brynu'r cardiau Nadolig blynyddol hynny! Bydd gennym hefyd stondin bwydydd a nwyddau Masnach Deg o fewn y babell.

Bob dydd am 11 o'r gloch y bore cynhelir oedfa fer, yn cael ei harwain gan fudiadau Cristnogol. Bob dydd am 2 o'r gloch trefnir sgwrs neu weithgaredd, ac ymhlith y sesiynau hynny byddwn yn lansio cyfrol newydd Cyfres y Beibl, wedi ei pharatoi gan Gymdeithas y Beibl, yn lansio cyfrol '*Malwan bach fel fi ...*' gan Prydwen Elfed-Owens a geiriadur Beiblaidd gan D. Geraint Lewis, yn ogystal ag ymgyrch ac apêl ddiweddaraf Cymorth Cristnogol. Cawn hefyd gyflwyniad cerddorol yn cynnwys chwe emyn newydd o waith Gerald Morgan, yr emynydd o Dregaron, cyflwyniad gan fudiad Cristnogaeth21 a sesiwn gan Meilyr Tomos ar yr organ. Bydd arddangosfeydd o fewn y babell gan ARocha ac eco-eglwysi, Cymdeithas y Beibl, Plant Dewi a Thir Dewi, heb anghofio am Cytûn a Chyngor yr Ysgolion Sul.

Atyniad ychwanegol ar y maes eleni fydd gardd Feiblaidd arbennig gan Gymdeithas y Beibl, sef gardd Salm 23, wedi ei chludo o Sioe Flodau Chelsea. Bydd modd gwrando ar fyfyrdod ar y salm drwy gerdded yn hamddenol drwy'r ardd. Bydd manylion sut

(parhad ar y dudalen nesaf)

Croeso'r eglwysi ar Faes yr Eisteddfod

(parhad o dudalen 12)

i wrando ar y myfyrdod ar gael yn y babell. Bydd amserlen lawn o'r arlwy ar boster yn y babell a hefyd ar dudalen Facebook Cytûn.

Yn ogystal, cynhelir gwasanaeth Gŵyl Flodau Eglwys Ystrad-fflur ddydd Sul, 31 Gorffennaf, am 4.30pm, a bydd eglwys Ystrad-fflur ar agor gydol wythnos yr Eisteddfod i arddangos cynnyrch yr ŵyl flodau. Croeso cynnes i bawb droi i mewn rhwng 9 a 5 o'r gloch.

Pnawn Sul, 31 Gorffennaf, cynhelir sgwrs rhwng yr Athro D. Densil Morgan a'r Esgob J. Wyn Evans ar Hanes Crefydd yng Nghymru yn Stondin Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, am 2 o'r gloch.

Yna, dydd Iau, 4 Awst, ym Mhabell y Cymdeithasau 2 am 1.30 o'r gloch traddodir darlith gan gyn-Archesgob Caergaint, Dr Rowan Williams, ar y testun: 'Ydi cerdd grefyddol yn bosib heddiw?'

Oedfa a Chymanfa

Edrychwn ymlaen hefyd at Oedfa'r Eisteddfod, sydd i'w chynnal yn y pafiliwn am 9 o'r gloch y bore ar 31 Gorffennaf, gyda'r Gymanfa hefyd y noson honno am 7 o'r gloch yr hwyr. Mae'r oedfa wedi ei pharatoi gan Rhiannon Lewis a Janet Evans, a chyflwynir anerchiad gan y Parch. Athro D. Densil Morgan. Noder y bydd angen tocyn maes arnoch i fynychu'r oedfa, ond ni fydd angen tocyn ychwanegol i gael mynediad i'r pafiliwn. Bydd yr oedfa yn cael ei darlledu ar S4C am 11 o'r gloch y bore hwnnw. Awgrymir prynu tocyn ymlaen llaw i osgoi ciwio yn y bore. Bydd angen tocyn mynediad i'r Gymanfa gyda'r hwyr, ac mae'r rheini ar gael o wefan yr Eisteddfod.

Cynhelir oedfa heddwch ddydd Iau, 4 Awst, yn y babell am 11 o'r gloch y bore, i gofio am Hiroshima a bydd cyfle i weddïo dros sefyllfa Wcráin. Yn ôl yr arfer hefyd, cynhelir yr offeren Gatholig am 6 o'r gloch nos Iau, 4 Awst, a hynny yn Eglwys Caron, Tregaron, gyda chroeso i bawb.

Mae'r babell ar y Maes yn un sylweddol o ran maint, gyda lle i eistedd tua 80 o bobl o gwmpas byrddau. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol i'r enwadau wrth gwrs, ac ambell un wedi cwestiynu ei werth. Ond mewn cyfnod lle nad yw 95% o boblogaeth Cymru bellach yn cysylltu'n rheolaidd â'r eglwys, mae'n gwbl allweddol fod yr eglwys yn bresenoldeb gweledol mewn digwyddiadau cenedlaethol fel hyn. Rhaid i ni fod yn weledol yn ein tystiolaeth a'n cenhadaeth, mewn cyfnod lle mae cynifer wedi colli pob cysylltiad â'r ffydd Gristnogol. Yn yr un modd, mae cyfleoedd i eglwysi fod yn bresenoldeb yn eu cymunedau lleol hwythau drwy fynychu ffeiriau a sioeau lleol, gan fod yn 'halen' ac yn 'oleuni'. Tybed pa gyfleoedd sydd yn eich ardal chi i gyfarfod pobl y tu allan i'ch cylch capel arferol?

Mewn cyfnod lle mae llawer wedi troi cefn ar yr eglwys, mor bwysig yw i ninnau fynd allan o'n hadeiladau, i ganol y byd yn ei holl amrywiaeth, gan fod yn hafan gobaith a ffynhonnell cariad a chonsýrn Cristnogol.

Gan obeithio'n fawr eich cyfarfod yn Nhregaron - cofiwch alw draw am baned a sgwrs.

Aled Davies
Trefnydd Digwyddiadau Cenedlaethol Cytûn

I ddilyn 'Taith Grefyddol Bro Maes yr Eisteddfod' gan Bronwen Morgan, darllenwch y rhifyn cyfredol o *Cenn@d*, rhif 74, 27 Gorffennaf, ar wefan: cennad.cymru.

Gardd Salm 23 yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Heb os, bydd darllenwyr *Cenn@d* yn gyfarwydd â Salm 23 – mae'n rhaid mai dyma'r salm fwyaf adnabyddus a'r anwylaf. Felly, roedd Cymdeithas y Beibl yn falch iawn o gael y cyfle i bartneru â'r Eisteddfod Genedlaethol i greu gardd ar y Maes wedi'i hysbrydoli gan Salm 23. Y nod yw creu gardd a fydd yn ennyn ein hemosiynau ac yn lle i fyfyrio a gorffwys. Bydd elfennau allweddol y salm yn cael eu cynrychioli yn yr ardd: y dŵr llonydd, y porfeydd gwyrdd, glyn cysgod angau a diwedd y daith. Bydd ymwelwyr yn cael eu gwahodd i gerdded o amgylch yr ardd a gwrando ar fyfyrdod yn seiliedig ar Salm 23.

Nid dyma'r tro cyntaf i Gymdeithas y Beibl fentro i fyd garddwriaeth! Yn gynharach yn y flwyddyn fe enillon nhw Fedal Aur yn Sioe Flodau Chelsea gyda Sarah Eberle, dylunydd gerddi o fri. Mae cyfres o adnoddau wedi eu cynhyrchu ar gyfer eglwysi yn seiliedig ar Salm 23, gan gynnwys canllaw i greu eich gardd eich hun yn seiliedig ar y salm a threfn gwasanaeth. Mae'r adnoddau Cymraeg hyn i'w cael ar wefan Cymdeithas y Beibl ynghyd â mwy o adnoddau Saesneg yn seiliedig ar y salm.

Felly, os ydych chi yn yr Eisteddfod cadwch olwg allan am yr Ardd a galwch draw am ychydig funudau tawel i ailwefru'r batris.

Sarah Morris,
Swyddog Hyfforddiant a Datblygu De Cymru, Agor y Llyfr

Gardd Salm 23 yn Sioe Flodau Chelsea Medi 2021

Prinder bwyd yn Nwyrain Affrica yn symbylu apêl frys gan Gymorth Cristnogol

Mae Cymorth Cristnogol wedi lansio apêl frys mewn ymateb i'r argyfwng bwyd sy'n gwaethygu yn Nwyrain Affrica. Bydd **Apêl Argyfwng Newyn Dwyrain Affrica** yn codi arian i gefnogi gwaith partneriaid yr elusen yn Kenya ac Ethiopia.

Yn dilyn y sychder gwaethaf mewn deugain mlynedd, mae miliynau o bobl yn Nwyrain Affrica yn wynebu bygythiad o newyn a marwolaeth. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu oherwydd yr argyfwng hinsawdd, pandemig Covid a'r rhyfel yn Wcráin. Mae partneriaid lleol Cymorth Cristnogol eisoes yn gweithio yn y rhanbarth, yn cefnogi dros 300,000 o bobl, ond mae angen gwneud mwy er mwyn achub bywydau a rhoi gobaith i bobl am ddyfodol gwell.

Mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn Ethiopia, er enghraifft, gydag arian gan Adran Materion Dyngarol y Cenhedloedd Unedig (UNOCHA – United Nations Office for the Coordination of Humanitarian Affairs), yn cynnig cefnogaeth fydd yn newid bywydau 200,000 o bobl a 200,000 o wartheg dros y flwyddyn sy'n dod. Bydd y prosiect yn trin 12 twll cloddio am ddŵr ac yn cynnig gofal milfeddygol i'r gwartheg. Bydd dros 500 o bobl yn cael $40 y mis am dri mis i'w helpu i brynu bwyd ac angenrheidiau eraill. Caiff 45,000 kg o fwyd anifeiliaid ei ddosbarthu ymysg 450 o deuluoedd sy'n hynod fregus; bydd hyn yn eu helpu i gadw eu hanifeiliaid yn fyw.

Yn Kenya, bydd partneriaid Cymorth Cristnogol yn cefnogi 31,500 o bobl sy'n wynebu prinder bwyd. Trwy helpu i drin chwe thwll cloddio am ddŵr, caiff 30,000 o bobl well mynediad at ddŵr. Yn ychwanegol bydd 250 o deuluoedd bregus yn derbyn £20 y mis mewn arian lleol am dri mis er mwyn iddynt allu prynu bwyd, ffisig a thalu dyledion.

Ond mae angen llawer mwy na hyn wrth i'r rhanbarth wynebu ei sychder gwaethaf mewn deugain mlynedd, yn dilyn pedwar tymor yn olynol pan na chafwyd glaw. Mae 18.4 miliwn o bobl ar draws Kenya, Ethiopia a Somalia un ai'n gorfod colli prydau bwyd neu'n byw ar ddeiet llai amrywiol. Mae 7.1 miliwn o blant yn dioddef o ddiffyg maeth yn Nwyrain Affrica, yn cynnwys dwy filiwn sy'n dioddef o ddiffyg maeth difrifol.

Mae diffyg dŵr yn golygu bod llawer o bobl yn gorfod cymryd camau difrifol er mwyn goroesi, yn cynnwys gadael eu cartref yn llwyr er mwyn chwilio am fwyd, dŵr a phorfa i'w da byw. Yn ogystal â'r sychder sy'n ei gwneud hi'n anodd tyfu cnydau, mae'r gost o brynu bwyd wedi codi'n sylweddol. Mae effaith ymosodiad Rwsia ar Wcráin wedi bod yn andwyol i'r rhanbarth, sy'n mewnforio 90% o'u grawn o'r ddwy wlad.

Dywedodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru:

'Mae'r sefyllfa a wynebir gan filiynau o bobl Dwyrain Affrica'n echrydus. Mae'r argyfwng hinsawdd wedi bod yn effeithio ar y tywydd yno ers peth amser, ond mae effaith y rhyfel yn Wcráin a Covid-19 yn golygu bod argyfwng go iawn yn datblygu yno.

Adoko Hatoro Engang, 76 oed, Dasenech, De Omo, Ethiopia, y tu allan i'w gartref dros dro

'Trwy gefnogi gwaith partneriaid Cymorth Cristnogol ar lawr gwlad â'r apêl frys hon, gallwn gynnig gobaith mewn sefyllfa sy'n gwaethygu. Rydym yn gwybod pa mor hael y mae pobl Cymru wedi bod gyda phobl Wcráin yn ystod eu hargyfwng. Mae'r rhai sy'n wynebu newyn yn Nwyrain Affrica nawr angen inni sefyll mewn undod gyda hwy.'

Gallwch gyfrannu at Apêl Argyfwng Newyn Dwyrain Affrica drwy fynd i wefan Cymorth Cristnogol: https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/east-africa-hunger-crisis-appeal

Gweddi ar gyfer Apêl Argyfwng Newyn Dwyrain Affrica

Dduw cariadus a thrugarog,
pan fo newyn yn tramwyo'r tir, does dim yn tyfu.
Planhigion, pobl, syniadau a breuddwydion –
gwywo a marw wnaiff popeth.
Caiff d'ewyllys ei wyro'n dreisgar,
wedi ei luosogi nawr
gan wrthdaro, newid hinsawdd a Chofid.
Dduw'r meysydd llewyrchus, mae digon i'n bwydo i gyd.
Gelwaist ni i'r cyfrannu cysegredig,
cymydog i gymydog byd-eang,
dy roddion o fwyd, dŵr
a chyfle i fyw bywyd a saernïwyd yn grefftus
gan dy ysbryd dwyfol.
Nid troi cefn wnawn ni, ond troi tuag at ein gilydd
gyda haelioni a thrugaredd cyfiawn
sy'n chwilio am atebion.
Mae newyn yn tramwyo'r tir, bydded i'n dicter dyfu,
bydded i'n penderfyniad gryfhau,
bydded i'n hundod ein sbarduno i weithredu.
Dduw'r meysydd llewyrchus,
helpa ni i fwydo'n gilydd.
Amen.

O'r Beibl: 10

Y Gwynfydau (3)

"Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro."
(Mathew 5:4)

Fel yn achos pob gwynfyd, mae'r ail wynfyd hefyd yn dechrau â 'gwyn eu byd'. Mae 'gwyn eu byd' yn llythrennol yn golygu 'hapus' neu 'wedi eu bendithio'. Ond mae bod yn 'wyn ein byd' yn golygu mwy na dim ond ein hemosiynau newidiol. Mae'n realiti nad yw'n dibynnu nac yn cael ei effeithio gan ein teimladau. Oherwydd, yn ôl y Beibl, bod yn 'wyn ein byd' yw cael *perthynas* gyda Duw. Yn wir, nid teimlad ydyw, ond cyflwr. Rydym un ai yn 'wyn ein byd' neu nid ydym felly. Yn y Gwynfydau, mae Iesu'n egluro sut rai yw'r bobl sy'n 'wyn eu byd', hynny yw, sut rai yw'r bobl sydd eisoes yn mwynhau perthynas â Duw.

Heddiw, down at yr ail wynfyd sydd i'w gael yn Mathew 5:4: '"Gwyn eu byd", meddai Iesu, "y rhai sy'n *galaru*."' Ond pwy yw'r bobl hyn sy'n 'galaru'?

Yn y gwynfyd cyntaf, dywedodd Iesu: 'gwyn eu byd y tlodion *yn yr ysbryd*'. Hynny yw, roedd 'na ystyr *ysbrydol* i beth roedd yn ei olygu i fod yn 'dlodion'. Buasai Iesu wedi gallu dweud 'gwyn eu byd y tlodion' ond dewisodd ddweud 'gwyn eu byd y tlodion *yn yr ysbryd*'. Gan fod adnod 4 yn dilyn adnod 3, mae'n rhaid fod 'galaru' hefyd yn golygu rhywbeth ysbrydol. Mae'r galaru hwn yn alaru am rhywbeth *ysbrydol*.

Y rhai sy'n 'galaru' yw'r rhai sy'n galaru am eu pechod ac am y ffordd y mae pechod eraill a chyflwr pechadurus y byd wedi'u brifo. Mae'r gwynfyd cyntaf yn sôn am bobl sydd wedi sylwi pa mor dlawd ydyn nhw'n ysbrydol. Mae'r ail wynfyd yn sôn am ymateb yr un bobl i'r tlodi ysbrydol hwn: galar. O sylwi pa mor wag a gwael ydynt yn ysbrydol, mae'r bobl hyn wedi'u llenwi gan alar a thristwch enbyd ac yn pledio ar Dduw am ei help.

Yn yr Hen Destament ceir darlun o'r hyn mae 'galaru' am bechod yn ei olygu. Un o lyfrau'r Hen Destament yw 'Galarnad'. Y proffwyd Jeremeia ysgrifennodd y llyfr hwn, a'r hyn mae'r llyfr yn ei wneud – fel mae'r teitl yn ei awgrymu – ydy 'galaru'. Yn llyfr Galarnad, mae Jeremeia yn galaru am bechod yr Israeliaid, a arweiniodd yn y pen draw at ddinstr Jerwsalem. Heb os, byddai'r Iddewon oedd yn gwrando ar Iesu'n pregethu'r Bregeth ar y Mynydd yn cysylltu'r llyfr hwn yn syth â'r syniad o 'alaru'.

Er hynny, nid condemnio'r rhai sy'n galaru am eu pechod y mae Iesu, ond cynnig cysur iddynt. Mae Iesu'n gorffen adnod 4 trwy ddweud y bydd y rhai sy'n 'galaru' yn 'cael eu cysuro'. Ond sut allant dderbyn y fath gysur? Wel, o gydnabod eu tlodi ysbrydol, galaru am eu pechod a throi at Iesu am help, gall pobl brofi maddeuant. Dyma beth sy'n dod â chysur go iawn i ni. Yn wir, beth all ddod â mwy o gysur i bechadur na maddeuant? Na gwybod bod ein beiau i gyd – er mor fawr ydyn nhw – wedi cael eu maddau gan Dduw? Gan fod Iesu wedi marw yn ein lle ni ar y groes, mae maddeuant ar gael i'r rhai sy'n galaru am eu pechod, ac yn troi at Dduw am help.

Wrth gloi, y cwestiwn i ni yw: ydyn ni'n galaru am ein pechod? Ydy hwn yn rhywbeth yr ydym ni wedi ei brofi? Os nad ydyw, gadewch i ni weddïo y bydd Duw yn ein gwneud ni'n alarwyr. Ond os ydym heddiw'n galaru am ein pechod, gallwn fod yn sicr y cawn ein cysuro gan faddeuant Duw.

Cwestiynau i feddwl amdanynt:

- Beth mae'n ei olygu i 'alaru' yn adnod 4?
- Sut mae'r rhai sy'n 'galaru' yn cael eu cysuro gan Iesu?

Gwilym Tudur

S4C

Sul, 31 Gorffennaf

Oedfa'r Bore, Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2022, am 11 o'r gloch. Cymerir rhan gan rai o drigolion sir Ceredigion a cheir anerchiad gan y Parch. Athro Densil Morgan

Cymanfa Ganu'r Eisteddfod am 7 o'r gloch; arweinydd: Delyth Hopkins Evans; organydd: Iestyn Evans

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 31 Gorffennaf, am 7:30yb a 6:00yh
Cyfraniad archdderwyddon i'n hemynyddiaeth – rhaglen 1. A hithau'n wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron mae Christine James yn trafod cyfraniad gwahanol archdderwyddon i'n hemynyddiaeth.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 31 Gorffennaf, am 1:00yp
Oedfa Eisteddfod Genedlaethol Tregaron

O ‘greithiau Gaza’ at ‘Apostol Sir Gaerfyrddin’ rhifyn Gorffennaf 2022 o’r *Traethodydd*

Bellach mae rhifyn Gorffennaf o’r *Traethodydd*, cylchgrawn llenyddol hynaf Cymru, ar gael yn y siopau, drwy archeb neu’n uniongyrchol drwy’r wefan. Mae’r rhifyn yr un mor amrywiol ag erioed, ac yn un y bydd ein darllenwyr, hen a newydd, yn cael blas arno.

Ar wahân i waith ein beirdd, Dafydd M. Job (yntau’n gyfrannwr newydd) a John Emyr, bu’r rhyddieithwyr yn ddiwyd, yn ôl eu harfer. Ac yntau wedi traethu mewn rhifynnau o’r blaen ar y beirdd metaffisegol Seisnig George Herbert a Henry Vaughan, mae Pryderi Llwyd Jones yn rhannu ei fyfyrdod ar un arall ohonynt, sef Thomas Traherne. Yn wahanol i Herbert a Vaughan, prin oedd cyswllt Traherne â Chymru fel y cyfryw, ond, fel hwythau, mae yn ei waith bethau arhosol eu gwerth ynghyd â neges sy’n berthnasol i’r unfed ganrif ar hugain. Bydd ail ran astudiaeth Pryderi yn ymddangos yn rhifyn yr Hydref.

Cyfraniad yr almanaciwr Gwilym Howel o Lanidloes yn y ddeunawfed ganrif sy’n dod dan sylw’r ysgolhaig Cynfael Lake, un o’n harbenigwyr pennaf ar lên boblogaidd y cyfnod, tra mae’r golygydd yn adrodd hanes yr Annibynnwr Stephen Hughes, ‘Apostol Sir Gaerfyrddin’, adeg trichanmlwyddiant ei farw.

Mae Gethin Matthews, yr hanesydd o Brifysgol Caerdydd, eisoes wedi cyfrannu’n helaeth at ein dealltwriaeth o ymateb y Cymry i alanas y Rhyfel



Mawr. Yn yr ysgrif ‘Creithiau Gaza: dinistr y gorffennol a’r olion a adawyd yng Nghymru’, mae’n ein goleuo ymhellach ynghylch yr ôl a adawodd y brwydro yn y Dwyrain Pell ar fywydau’r rhai a fu’n ymladd yno a’r hiraeth wedi’r colledion enbyd a fu yno. Dyma ysgrif sobreiddiol a dwys.

Yn ogystal â hynny, mae Dafydd Johnston yn adolygu *Hen Ddalennau,* casgliad gwerthfawr o ysgrifau llenyddol un o’r craffaf o’n beirniaid, sef Dafydd Glyn Jones.

Fe’ch anogwn unwaith eto i ddarllen y rhifyn cyfoethog hwn o’r *Traethodydd*, ac yn well fyth i danysgrifio i’r hynaf a’r mwyaf sylweddol o gylchgronau’r diwylliant Cymraeg. Wedi’i argraffu gan Wasg Gomer, Llandysul, gellir ei archebu ar lein trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw’r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch ag Alice Williams (alice@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen Foundation

Darlith Pantyfedwen
Eisteddfod Genedlaethol
Ceredigion 2022

DJ James, Pantyfedwen: Mentrwr, Diwygiwr, Cymwynaswr

Richard Morgan
yn rhannu ychydig o hanes difyr y gŵr arbennig hwn o Geredigion a’r gwaddol a adawodd i bobl Cymru

12.30 o’r gloch
Dydd Mercher 3 Awst 2022
Pabell y Cymdeithasau 2

Llythyr at Olygyddion *Cenn@d Gair y Dydd*

Annwyl Olygyddion,

Dymunaf fynegi fy ngwerthfawrogiad o’r deunydd defosiwn dyddiol *Gair y Dydd* a gyhoeddir gan banel golygyddol rhyngenwadol. Diolch i aelodau’r panel a’r cyfranwyr am eu gwaith trylwyr yn darparu pedwar rhifyn y flwyddyn sy’n cynnwys darlleniad, myfyrdod a gweddi ar gyfer pob diwrnod o’r flwyddyn. Er mai’r bwriad yw cynnig deunydd ar gyfer defosiwn personol, mae hefyd yn addas i’w ddefnyddio mewn cyfarfodydd gweddi ac addoliad cyhoeddus. Cyflwynir adrannau cyfarwydd ac anghyfarwydd o’r Beibl, a neges sy’n gyfoes a pherthnasol i ni heddiw.

Yn wyneb yr amgylchiadau anodd a heriol yr ydym yn eu hwynebu y dyddiau hyn, pa well agoriad i fyfyrdodau mis Gorffennaf eleni na’r geiriau canlynol? ‘Cychwynnwn ein mis newydd gyda gweledigaeth i’n hysbrydoli a’n harwain.’ Mae’r myfyrdod yn seiliedig ar eiriau’r proffwyd Habacuc: ‘Oherwydd fe ddaw eto weledigaeth yn ein hamser’ – gweledigaeth sy’n cael ei chyflwyno trwy gyfrwng hanes Iesu’n ymddangos i’r disgyblion ac i Tomos yn Ioan 20, gan rannu’r geiriau ‘Tangnefedd i chwi’ a Tomos yn ymateb â’r geiriau ‘Fy Arglwydd a’m Duw’.

Os nad ydych yn derbyn *Gair y Dydd* eisoes, anogaf chi i wneud hynny a thanysgrifio ar gyfer pedwar rhifyn y flwyddyn sy’n darparu deunydd defosiynol dyddiol ardderchog am flwyddyn gyfan.

Yn gywir,

Eleri Davies
Aberystwyth

[DS Gellir archebu copïau oddi wrth y Trysorydd, Mr D. Glyn Williams; ffôn: 01492 581439 / 07866126072]

William Evans, ‘Doctor Tyndomen’ – un o arwyr bro’r Eisteddfod



Mae Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion wrth y drws wedi’r holl edrych ymlaen. Ac mae i Dregaron le cynnes iawn yn fy nghalon i gan mai yno y bûm yn yr ysgol uwchradd am saith mlynedd a derbyn **addysg lawn**. Heddiw, fel mewn sawl ysgol uwchradd arall, fe ddiflannodd y chweched dosbarth – a dyna golled! Dyma’r cyfnod lle caem ein meithrin fel dinasyddion drwy gael trafodaethau sylweddol o dan gyfarwyddyd prifathrawon fel D. Lloyd Jenkins a Glyn Ifans. Caem ein trwytho yn hanes cyfoethog yr ardal a’i henwogion.

Wrth deithio drwy Tregaron rai dyddiau’n ôl, es heibio Bryndomen, lle treuliodd y llawfeddyg ymgynghorol William Evans ei ymddeoliad wedi gyrfa ddisglair yn Harley Street. Rai blynyddoedd yn ôl cyhoeddodd y Dr Buddug Owen (un o ferched Argoed, Llangwyryfon, a fu’n anesthetydd yn Ysbyty Glan Clwyd) gofiant teilwng iddo dan y teitl *A Rare Hero*. Gelwid ef yn ‘Ddoctor Tyndomen’ ar lafar gwlad, gan mai ar fferm Tyndomen y ganed ef, a hynny ar 24 Tachwedd 1895.

Bu llwybr ei fywyd yn un disglair a’i gyfraniad i gleifion a chymdeithas yn ddifesur. Dengys y gyfrol hon ôl ymchwil fanwl, ac mae’r awdur wedi llwyddo i ennyn edmygedd y darllenydd cyffredin o’r cychwyn cyntaf. Dilynwn gamre’r myfyriwr ifanc yn dringo o ris i ris yn y maes meddygol ac yn mynnu cynnal y safonau a’r gwerthoedd uchaf. Drwy holl stori’r daith gwelwn ei hunanddisgyblaeth yn dod i’r wyneb: byddai’n darllen pennod o’r Beibl bob dydd.

Gwelwn enghreifftiau gwych ohono fel cyfathrebwr da, ac yn sicr dyma un o sgiliau pwysicaf y proffesiwn. Dyma rai o’r ymadroddion cofiadwy a ddefnyddiai wrth ddarlithio i’w fyfyrwyr: ‘to be dumb at a patient’s bedside is to miss the opportunity to make him better’ ac ‘euthanasia is murder glossed over’.

Daeth yn gardiolegydd enwog oedd yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol, a deuai gwahoddiadau o bedwar ban iddo ddarlithio. Prawf o’i allu arbenigol unigryw yw’r ffaith mai ef a alwyd i weld y Prif Weinidog Stanley Baldwin yn 1937 pan oedd yntau’n anhwylus. Credai’n gryf mewn digon o ymarfer corff, ac wrth annerch cynhadledd o ‘wŷr coler a thei’ un tro ei gyngor oedd: ‘Gwerthwch y car, prynwch gi; cerddwch – ac ewch i arddio.’

Yn 1967, wedi iddo ymddeol, dychwelodd i fyw ym Mryndomen, bynglo cyfleus ar dir yr hen gartref yn Nhyndomen:

> Tua’r lle bu dechrau’r daith
> Af yn ôl i fy nylaith.

Treuliodd Buddug Owen rai wythnosau yn aros yn y bynglo ym Mryndomen cyn ysgrifennu’r gyfrol er mwyn cael cyfle a hamdden i synhwyro’r awyrgylch.

Ac yntau bellach wedi ymddeol, daeth cyfle nawr i’r doctor wneud gwaith corfforol a mwynhau’r awyr iach. Torchodd ei lewys, a dyma adeiladu cytiau i’r lloi, cynel i’r ci a gosod concrit ar y llwybrau. Roedd galw mynych am ei wasanaeth i annerch gwahanol gymdeithasau a medrai wneud i bwnc sych swnio’n ddiddorol.

Tra oedd yn Uchel Siryf Ceredigion, cofiaf amdano’n dod i annerch yng nghyfarfod gwobrwyo’i hen ysgol uwchradd yn Nhregaron. Ac er bod hanner can mlynedd ers hynny rwy’n cofio rhai o’i gynghorion hyd heddiw.

Wrth basio Bryndomen y diwrnod o’r blaen fe brociwyd y cof a dyma rai ohonynt:

1. Caewch bob drws yn dawel: mae tawelwch yn helpu rhywun i fynd drwy fywyd yn urddasol.
2. Mae codi o’ch sedd pan ddaw merch i mewn i’r ystafell yn arwydd o aeddfedrwydd.
3. Cynigiwch eich sedd i ferch neu berson hŷn ar fws neu ar drên.
4. Cerddwch ar yr ochr allan i ferch ar balmant a meithrin ysbryd y Samariad.
5. Meithrinwch foesgarwch wrth y bwrdd.
6. Byddwch yn daclus a thrwsiadus.
7. Byddwch yn brydlon.
8. Cydnabyddwch bob llythyr yn brydlon!

Gobeithio y cawn glywed mwy o hanes Dr William Evans yn ystod y Brifwyl; yn sicr, roedd yn un o feibion disgleiriaf y fro.

Beti Griffiths

Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022

Traddodir darlith Capel / Addoldai Cymru

ar y testun

‘Dau o Bregethwyr Mwyaf Ewrop: Daniel Rowland a Dr Martyn Lloyd-Jones’

gan yr Athro Wyn James

yng Nghapel Gwynfil, Llangeitho

Dydd Iau, 4 Awst 2022,

am 10 30 a.m.

Croeso cynnes i bawb

DEMOCRATIAETH AR WAITH YN YR UNDEB

Mae hawl gan unrhyw unigolyn, eglwys neu gyfundeb i wneud cais am roi penderfyniad (h.y. cynnig) gerbron Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb. Ceir trafodaeth a phleidlais ar bob un. O'u derbyn, mae'r penderfyniadau yn cael statws swyddogol gan yr Undeb. Dyma'r pedwar a drafodwyd ac a derbyniwyd eleni.

CYDNABYDDIAETH Y WEINIDOGAETH ACHLYSUROL

Yr ydym fel aelodau Cyfundeb Annibynwyr Meirion yn galw ar Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i gychwyn trafodaeth gyda'r enwadau anghydffurfiol eraill i geisio cysoni cydnabyddiaeth y Sul i weinidogion, pregethwyr lleyg a myfyrwyr, gan gynnwys oedfaon digidol.

Cynigydd: Ian Lloyd Hughes
Eilydd: Bethan Davies Jones
(ar ran Cyfundeb Meirion.)

APÊL ARBENNIG CYMORTH CRISTNOGOL

Cynigir ein bod, fel Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yn lansio apêl ariannol arbennig yn ein cyfarfodydd blynyddol yn 2023, a'n bod yn trafod gyda Chymorth Cristnogol yn y cyfamser i weld pa fath apêl a fyddai'n gymwys i ennyn ein cefnogaeth.

Cynigydd: Emlyn Davies
Eilydd: Rhodri-Gwynn Jones
(ar ran yr Adran Dinasyddiaeth Gristnogol)

CYFIAWNDER HINSAWDD YNG NGHYSWLLT 'COLLED A DIFROD'

Mae'r gwrthdaro yn Wcráin wedi mynd â sylw'r byd dros y misoedd diwethaf, ac mae'r ymateb gan ein heglwysi a'n cymunedau wedi bod yn llethol. Un canlyniad i'r ymladd yno yw bod prisiau grawn wedi codi, gan fod Wcráin yn wlad

sy'n cynhyrchu cymaint o rawn ar gyfer y byd. Wrth gwrs, bydd llawer o wledydd cyfoethog yn gallu ymdopi gyda'r prisiau uwch, ond i'r gwledydd tlawd mae'n fater gwahanol.

Mae'r byd yn cynhyrchu mwy o fwyd nag erioed yn hanes y ddynoliaeth, ond mae bron i 700 miliwn o bobl yn mynd i'r gwely heb ddigon o fwyd, a mwy na 40 miliwn yn agos i newyn. Yn llawer o'r gwledydd y mai Cymorth Cristnogol yn gweithio ynddyn nhw – Afghanistan, Ethiopia, Kenya, De Sudan, Haiti, Burkina Faso – mae hi eisoes yn anodd cynhyrchu eu bwyd eu hunain oherwydd y newid yn yr hinsawdd, a bydd prisiau uwch yn ychwanegu at yr argyfwng.

Mae cartrefi wedi'u colli oherwydd lefelau dŵr yn codi, tir ffermio yn troi yn anialwch, seiclonau eithafol a thanau gwyllt yn dinistrio'r tir, mae'r colledion a difrod sydd yn cael ei brofi gan gymunedau weithiau yn amhosib adfer ohonyn nhw. Mae'r colledion yn amhosib ennill yn ôl, a'r difrod yn fawr – yn gadael cymunedau heb ddim ac yn gorfodi pobl i adael eu cartrefi ac i fynd heb ddigon o fwyd. Mae ymgyrch CC yn galw ar y rai sydd yn gyfrifol am yr argyfwng hinsawdd (gwledydd cyfoethog, cwmnïau tanwydd ffosil ayb) i dalu am y golled a'r difrod sydd yn effeithio fwyaf ar bobl dlotaf y byd. Mae hyn yn fater o gyfiawnder. Mae'n hanfodol bod yr eglwysi yn codi eu llais ynglŷn â'r mater hwn.

Yr ydym yn cynnig ein bod ni fel Undeb yr Annibynwyr Cymraeg:

1) yn cefnogi, ond hefyd yn annog cyfundebau, yr eglwysi ac unigolion i gefnogi ymgyrch Cymorth Cristnogol, 'Colled a Difrod', e.e. galw ar Lywodraeth Prydain:

- i bwyso am greu cronfa ryngwladol newydd yn 2022 ar gyfer 'colled a difrod' mewn perthynas â'r hinsawdd
- i berswadio gwledydd eraill i gefnogi cronfa 'colled a difrod'.
- Sicrhau bod yr arian sydd yn y gronfa hon, yn cyrraedd y cymunedau tlotaf a'r mwyaf bregus

2) yn cymryd rhan a hefyd yn annog cyfundebau, yr eglwysi ac unigolion i gymryd rhan mewn gweithgaredd trafod Cyfiawnder Hinsawdd ynghylch yr argyfwng hinsawdd, a'r hyn sydd angen inni wneud i weld ein heglwysi a'n cymunedau yn gweithredu dros y degawd allweddol yma, gan ddefnyddio pecyn trafod Cymorth Cristnogol a bwydo ymateb 'nôl i Cymorth Cristnogol o fewn y 6 mis nesaf.

3) yn annog eglwysi ac ysgolion Sul fel gweithgaredd pob oed, i ymateb i gynllun dylunio Cymorth Cristnogol 'Llythyrau Dros y Greadigaeth' ac i rannu hynny gyda'r gymuned.

Cynigydd: Parchg Tom T. Defis
Eilydd: Parchg Guto Prys ap Gwynfor
(ar ran Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin)

LLUNIO CYFREITHIAU A PHOLISÏAU GAN LYWODRAETH PRYDAIN

Mae Cynhadledd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn hynod annifyr gyda'r cynnydd amlwg mewn cyfreithiau a pholisïau anoddefgar sydd bellach yn cael eu cynnig a'u trafod yn Senedd y Deyrnas Unedig, a'u gweithredu gan Lywodraeth Prydain. Mae amryw o'r deddfau a'r polisïau hyn yn wrthun i draddodiadau goddefgar a rhyddfrydol y wladwriaeth.

Rydym yn pryderu bod iawnderau a hawliau dynol yn cael eu tanseilio, a bod hawliau gweithwyr yn cael eu peryglu.

Ceir enghreifftiau diweddar yn y ddeddf a basiwyd yn 2022 ar Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd sy'n cyfyngu ar yr hawl i wrthdystio'n heddychlon, a hefyd ar ymgais cyson i atal ceiswyr lloches rhag hawlio statws fel ffoaduriaid oddi fewn i'r Deyrnas Unedig. Ychwanegwyd at hyn yn ddiweddar gyda dechrau alltudio ceiswyr lloches i'w prosesu yn Rwanda.

Fel Undeb o eglwysi Cristnogol a dilynwyr Iesu Grist, safwn yn gadarn dros werthoedd efengyl y Deyrnas. Galwn, felly, ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod pob polisi a deddf yn gosod buddiannau pobl anghenus y byd yn gyntaf, a bod hawl gan drigolion Prydain i brotestio yn agored yn cael ei amddiffyn i'r eithaf. Galwn ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau na fydd unrhyw ymgais gan y wladwriaeth i ddirywio cyfundrefnau hawliau dynol na hawliau gweithwyr oddi fewn i'r Deyrnas Unedig.

Cynigydd: Parchg Aled D. Jones
Eilydd: Gwynn Bowyer
(ar ran Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin)

Braslun o Hanes Eglwys Pisgah, Talgarreg

gan E. Lloyd Jones, Mynachlog, Talgarreg,
(diacon a chyn ysgrifennydd eglwys Pisgah, Talgarreg)

Dyma ni yn 2022 ac wedi i 51 mlynedd basio ers y dathlu diwethaf, dathlwn ddau gant o flynyddoedd agor y capel cyntaf, ar y Sul olaf mis Hydref 1821 a chant a hanner ers agor y capel presennol. Ond mae'n bwysig nodi mai dathlu agor y capel cyntaf a wneir yma heddiw, nid sefydlu'r achos, yr oedd hynny wedi digwydd tua 10 mlynedd yn gynt.

Y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Awn yn ôl i droad y ganrif ac i'r flwyddyn 1800, nid oedd capel nag eglwys yn yr ardal. Yr eglwys agosaf oedd yr un yng Nghapel Cynon, sef capel anwes i eglwys y plwyf. Byddai rhai trigolion yn mynd i Gapel Cynon, eraill yn mynd i eglwys y plwyf Llandysilio-go-go sydd yn agos at Gwmtudu. Byddai trigolion ochr arall i'r pentref fel Clettwr a Rhydlydan ac yn mynd i eglwys y plwyf Llanarth ac o ardal Bwlchyfadfa yn mynd i eglwys y plwyf Llandysul. Yn y cyfnod hwn yr oedd pethau'n dechrau newid, rhai trigolion yn ymuno â'r Annibynwyr ac eraill yn ymuno a'r Undodiaid. Byddai'r Annibynwyr yn yr ardal yn mynd i gapel Penrhiwgaled a'r Undodiaid yn mynd i Hen Gapel Llwynrhydowen, tipyn o daith i'r ddau gapel. Ym 1812 cytunodd y ddwy garfan i adeiladu capel ar y cyd, yn Bwlchyfadfa, gan ddefnyddio'r capel bob yn ail ddydd Sul. Ond oherwydd twf cyflym yn y ddwy gynulleidfa, a'r galw cynyddol am wasanaeth bob Sul, terfynwyd y cytundeb. Penderfynodd yr Annibynwyr adeiladu capel yn Pisgah ar dir Pantswllt, a thalodd yr Undodiaid £35.00 iddynt fel iawndal. Gyda'r arian hwnnw y dechreuwyd adeiladu'r capel cyntaf yma.

Ehangu

Tyfodd y gynulleidfa gymaint yn ystod yr hanner canrif nesaf hyd 1871 fel bod angen capel mwy o faint, dymchwelwyd yr hen gapel ac adeiladu'r capel presennol. Cofiaf fy mam-gu'n dweud pan roedd hi tua 5 oed, ei bod hi'n cofio dod i'r gwasanaeth yn Pisgah ar brynhawn Sul gyda'i thad a'i mam a bod pob sedd yn llawn, a'i bod hi a phlant eraill yn gorfod eistedd yng nghôl eu mam. Yr oedd wedi ei geni ym 1878. Cwestiwn sydd yn fy meddwl i yw, o ble y deuai'r holl bobl? Yr unig beth y gallaf ei feddwl, yw bod dalgylch y capel yr adeg honno yn ymestyn o Hafodwennog a Pantyrehedydd, (sydd hanner ffordd i Gorsgoch) i Sarnaugwynion, Cwrtrhydlyd ac Esgeronwy, (sydd fwy na hanner y ffordd i Lanarth a Mydroilyn ac o Blaencwmpridd a Cruglas ger Plwmp i Pantglas sydd hanner y ffordd i Gorsgoch.

Newidiadau cymdeithasol

Heddiw mae'r dalgylch yn llai, ond nid dyna yw'r unig reswm am y sefyllfa bresennol. 150 a 200 mlynedd yn ôl y capeli a'r eglwysi oedd y canolfannau cymdeithasol, nid oedd dim arall ar gael, nid oedd WI, yn bodoli, na Merched y Wawr, Urdd Gobaith Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifanc, na Sioe Frenhinol na Llyfrgell Genedlaethol, yn Aberystwyth a'r llu o gymdeithasau eraill sy'n bodoli erbyn hyn. Nid oedd dim arall ond y mannau addoli ar gael i bobl. Gwyddom trwy lyfr Euronwy James pwy oedd yma 150 a 200 mlynedd yn ôl. Ond y cwestiwn na all neb ei ateb yw, 'Pwy fydd yma **ymhen 100 a 200 o flynyddoedd eto?'**



Neuaddlwyd

Cyn cloi carwn sôn am un teulu a newidiodd eu teyrngarwch, sef teulu Rhydlydan. Etifeddodd John Jenkin Jones, Rhydlydan hanner ystâd Clettwr a oedd yn ymestyn o Dalgarreg i Mydroilyn. Ei etifedd ef oedd ei ferch Mary, ymaelododd hi â'r Annibynwyr yn Penrhiwgaled a thrwy hynny bu iddi gyfarfod ac wedyn briodi Thomas Phillips a ddaeth wedyn yn weinidog ar eglwys Neuaddlwyd ac a ddaeth yn enwog am iddo sefydlu Academi ar ei fferm Penbanc, ger Ffos-y-ffin ac anfon cenhadon i Fadagascar. Eu merch hwy fu yn ffermio Rhydlydan ar ôl ei thad-cu, a'i phriod hithau Thomas Thomas oedd un o ddiaconiaid cyntaf Capel Pisgah, Talgarreg.

Bu teulu Rhydlydan a'r Dr Thomas Phillips yn allweddol yn sefydlu'r achos ac adeiladu'r ddau gapel yma. Y gred gyffredinol oedd i Mary Jones, Rhydlydan ymuno â'r Annibynwyr wedi iddi gyfarfod a phriodi Thomas Phillips, ond i'r gwrthwyneb, bu iddi gyfarfod a Thomas Phillips oherwydd iddi ymuno â'r Annibynwyr.

(Rhannwyd yr hanes hwn gyda'r gynulleidfa mewn oedfa ar ddydd Sul 8 Mai, 2022. Awgrymir os am hanes eglwys Pisgah, Talgarreg yn llawn, yn fwy manwl a chynhwysfawr edrychwch ar Llyfr Annibynwyr Pisgah a Phenrhiwgaled *1971 ysgrifennwyd gan Euronwy James, Penrhyn-coch gynt Pantswllt, Talgarreg. Fe'i paratowyd ar gyfer dathlu canrif a hanner adeiladu'r capel cyntaf yn Pisgah yn 1821 a dathlu canrif yr ail gapel sef y capel presennol a adeiladwyd ym 1871.)*

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: **02920 490582**
E-bost: **aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
Ffôn: **01766 513138**
E-bost: **IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: **01267 232577 / 0781 751 9039**
E-bost: **alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: **01792 795888**
E-bost: **undeb@annibynwyr.cymru**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Anrhydeddu dwy organyddes

Roedd bore Sul cyntaf Gorffennaf yn ddiwrnod arbennig yn y Trinity, Llanboidy. Yn ystod yr oedfa cafwyd cyfle i ddiolch i ddwy organyddes am flynyddoedd maith o wasanaeth. Mae Merl Evans wedi bod yn chwarae'r organ yn y capel ers 73 o flynyddoedd. Hefyd mae wedi dysgu cenedlaethau o blant i chwarae'r piano ar hyd y degawdau. Mae hi yn parhau i chwarae yn y capel ac yn ogystal mae'n cynorthwyo yn yr eglwys ac yn yr ysgol gynradd pan fydd angen.

Mae Bethan Williams wedi bod yn chwarae'r organ yn y Trinity ers 43 o flynyddoedd. Dysgwyd Bethan gan Merl ac mae hi hefyd wedi bod yn hynod o ffyddlon i'r capel. Erbyn hyn mae Bethan wedi symud i Abertawe i fod ar bwys y merched.

Diolch i Merl a Bethan am wasanaeth mor arbennig i'r Trinity, Llanboidy ar hyd y blynyddoedd.

Diolch i un o'r aelodau sef Wenfys Rees am baratoi y blodau hyfryd.

Guto Llywelyn

Merl Evans (ar y chwith) a Bethan Williams

DATGORFFORI EGLWYSI

Fel chwithau dwi'n siŵr, mi fyddai'n llawer gwell gen i newid y teitl i 'Agor Eglwysi' ond, ysywaeth, nid felly y mae hi ar y foment – clywed sôn yr ydan ni'n gyson am eglwysi (o bob enwad) yn dod i ben. A hyd nes cawn ni ymweliad bendithiol yr Ysbryd Glân (a newid agwedd llawer o eglwysi), mae arna i ofn mai cyflymu fydd y broses. O fewn y flwyddyn a hanner ar aeth heibio yr wyf wedi bod naill ai'n gyfrifol neu'n cymryd rhan mewn oedfaon datgorffori yn Utica, Gellilydan; Horeb, Mynytho a Saron, Bryncrug – y rhain o fewn corlan yr Annibynwyr. A chan fy mod yn perthyn i'r enwad Presbyteraidd hefyd, gwelais yn yr un cyfnod achosion fel Bethlehem, Bryncrug; Bethesda, Blaenau Ffestiniog ac Edern yn Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd.

Y GAIR 'DATGORFFORI'

Un disgrifiad o Eglwys Iesu Grist yn y Testament Newydd yw 'corff Crist' ond y mae gen i ofn, yn ôl yr hyn a glywaf, nad yw pobl yn deall ystyr y gair dan sylw. Pan ddechreuwyd achos fe 'gorfforwyd eglwys' ac yn syml iawn, pan ddaw achos i ben, mae i'w *dat*gorffori, ac yn yr oedfa olaf byddwn yn datgan bod corff Crist yn dod i ben yn y lle dan sylw, a cheir datganiad croyw a chlir yn y Llyfr Gwasanaeth yn datgan hynny, ac i'w ddarllen yn yr oedfa olaf.

PROBLEM!

Fel sawl gweinidog arall cefais fy hun naill ai'n bresennol mewn oedfaon datgorffori, neu'n arwain oedfaon o'r fath hyd yn oed, ac nid yw'n achlysur llawen; mae'n drist ac y mae' n achos gofid mawr fod achosion sydd wedi bod yn rhai byw yn gorfod wynebu'r canlyniad hwn. Ond chwarae teg i sawl un, maent yn wynebu'r anodd ac yn dod a'r achosion i ben mewn ffyrdd urddasol drwy ddatgorffori. Y broblem ydi bod yna lawer gormod o eglwysi Annibynnol ar hyd a lled y wlad sydd heb fod yn cynnal oedfa ers amser maith (cyn y Covid, lawer ohonyn nhw), ond eto'n swyddogol, yn dal yn agored. Dwedwch y gwir, beth yw pwrpas cadw achos yn agored yn swyddogol a dim oedfa yn cael ei chynnal yno? Oni fyddai'n llawer llai hunanol i'r eglwysi hynny weithredu i ddatgorffori yn awr yn hytrach na gadael adeiladau ac eiddo yn broblem i genedlaethau a ddaw? Ni ddylem gywilyddio ein bod yn gorfod dod ag achos i ben oherwydd, yn amlach na pheidio, collir y ffyddloniaid, symuda'r ifanc i ardaloedd eraill, ac, am ryw reswm, nid oes gan rai unrhyw argyhoeddiad i ddod ynghyd i addoli, a heb argyhoeddiad Cristnogol, gwagedd yw'r cwbl. Ond yr alwad gen i ydi ar i'r eglwysi hynny nad ydynt yn cynnal unrhyw beth, a heb fwriad i wneud hynny, i feddwl am eraill drwy symud i ddatgorffori yn awr ...

Y tro nesaf, ystyriwn yr eglwysi sy'n dal ati ...

Iwan Llewelyn

Taro'r e-bost i'r pared glywed

Rwy'n deall bod rhai ysgrifenyddion eglwysi wedi bod yn anfon e-bost ataf i'r cyfeiriad gwaith gyda'r Undeb sef robin@annibynwyr.cymru

Gan fy mod wedi ymddeol o'm swydd gyda'r Undeb, nid yw'r cyfeiriad hwn bellach yn weithredol. Felly er mwyn sicrhau fy mod yn derbyn eich negeseuon ac ymateb iddynt, a fyddech mor garedig â defnyddio'r cyfeiriad canlynol:

robinsamuel64@hotmail.com

Fe ddylai pethe fod yn fwy eglur erbyn y Blwyddiadur nesa. Ymddiheuriadau am unrhyw anghyfleustra a achoswyd.

Robin Samuel

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.